Y CRIW Mentrus

Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Astudiaeth Achos Ymgorffori Menter yn y Cwricwlwm

## Astudiaeth achos: Ysgol Gynradd Treforys, Abertawe

## Teitl: Dulliau o gyflwyno cwricwlwm menter eang a chytbwys



**Mae gan Dreforys oddeutu 200 o blant yn cynnwys 30 disgybl meithrin rhan amser, 20 disgybl sy’n mynychu cyfleuster dysgu arbenigol a 10 disgybl sy’n mynychu’r uned arsylwi ac asesiad. Mae gan yr ysgol dri dosbarth Cyfnod Sylfaen un oedran a thri dosbarth cynradd uwch oedran cymysg. Mae oddeutu traean o’r disgyblion yn gymwys i dderbyn cinio ysgol rhad ac am ddim, sy’n uwch na’r cyfartaledd cenedlaethol. Roedd yr ysgol yn eilydd yn Rownd Derfynol Genedlaethol Y Criw Mentrus yn 2022 am eu prosiect ‘School Plant Pot Pack’.**

Eu man cychwyn ar gyfer ymgorffori addysg menter ar draws y cwricwlwm oedd derbyn ymweliad gan fodel rôl Syniadau Mawr Cymru a rannodd ei siwrnai ysbrydoledig i ddod yn entrepreneur llwyddiannus. Mae dull yr ysgol o gyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys  yn canolbwyntio ar gynllunio cyfleoedd dysgu dilys. Rhennir yr her menter gyda disgyblion cynradd uwch ac fe gynhelir trafodaethau dosbarth ynglŷn â nod y prosiect yn bennaf cynllunio, dylunio a chreu cynnyrch go iawn y gellir ei farchnata a'i werthu i gwsmeriaid. Mae'r disgyblion yn cychwyn trwy greu meini prawf llwyddiant ar gyfer y cynnyrch, er enghraifft:Enw brand sy'n gysylltiedig a'r cynnyrch a'r ysgol.


- Logo trawiadol
- Pecynnu sensitif i'r amgylchedd
- Wedi'u prisio'n rhesymol
- Gellir eu masgynhyrchu

Gan ddefnyddio'r meini prawf llwyddiant mae'r plant yn cynhyrchu gymaint o syniadau gwahanol a phosib ar gyfer y cynnyrch. Yn dilyn y cam cynhyrchu syniadau, mae'r rhestr o gynnyrch posibl yn cael ei lleihau wrth i'r dosbarth bleidleisio am eu ffefryn, gyda'r disgyblion yn defnyddio  eu sgiliau rhifedd i greu siartiau cyfrif i arddangos canfyddiadau a'u sgiliau TGCh i drosi'r siartiau cyfrif yn graffiau bar gan ddefnyddio Microsoft Excel.

Ar ôl astudio cwestiynau agored a chaeedig yn ystod sesiwn llythrennedd, mae'r disgyblion yn dylunio a chreu holiadur trwy ddefnyddio Microsoft Forms. Yna mae'r ysgol yn rhannu'r holiadur gyda rhieni a'r gymuned ehangach trwy ddefnyddio sianeli cyfryngau cymdeithasol yr ysgol i gasglu data ymchwil marchnad ynglŷn â'r cynnyrch. Mae'r plant hefyd yn defnyddio eu sgiliau traws cwricwlaidd i gynnal ymchwil marchnad ar gynnyrch tebyg sydd ar gael ar y bryd, trwy ddefnyddio eu sgiliau cymhwysedd digidol i nodi gwybodaeth, pris, lleoliad ac unrhyw wybodaeth ychwanegol. Yn ystod y cam nesaf mae'r disgyblion yn dewis enwau brand, dylunio logos, sloganau, cynlluniau lliw, a hysbysebion ar gyfer y cynnyrch o'u dewis, gyda'r dosbarth yn pleidleisio i ddewis y logo ac enw brand buddugol.

Mae'r disgyblion wedyn yn llunio llythyr i'r Pennaeth yn gofyn am fenthyciadau bychan i gychwyn eu prosiect menter. Trwy ddefnyddio dull ymarferol, mae'r plant yn cynhyrchu'r cynnyrch, gan sicrhau bod yr holl ystyriaethau holl iechyd a diogelwch, a chynaladwyedd  yn cael eu bodloni. Mae'r ysgol yn ceisio help modelau rôl entrepreneuraidd lleol i gynghori ac ysgogi'r disgyblion, gan eu helpu i greu cynnyrch busnes hyblyg y gellir eu gwerthu i'r rhieni a'r gymuned ehangach yn y marchnadoedd lleol mewn digwyddiadau tymhorol trwy gydol y flwyddyn. Enghreifftiau o'r cynnyrch y mae'r disgyblion wedi eu creu yn ddiweddar yw:

- Pecynnau Potiau Planhigion
- Wax Melts
- Bomiau Bath a sebon
- Addurniadau Nadolig



Mae'r holl ddysgu yn ddibynnol ac yn seiliedig ar y Pedwar Diben. Mae cymeriadau Pedwar Diben yr ysgol hefyd yn cysylltu â chymeriadau entrepreneuraidd a setiau sgiliau Syniadau Mawr Cymru. Mae'r cynhyrchion dewisol weithiau'n gysylltiedig â phynciau dosbarth er enghraifft, cynhyrchion bwyd sy'n gysylltiedig â Phythefnos Masnach Deg, a gweithgareddau STEM, neu'n brosiectau annibynnol. Mae pob prosiect menter yn galluogi'r disgyblion i ymgysylltu â phob maes dysgu a phrofiad. Cynllunnir profiadau dysgu dilys yn ofalus i alluogi'r plant i ymgymryd â gwahanol rolau a chyfrifoldebau megis marchnata, creu, ymchwilio a gwerthu, er mwyn sicrhau datblygiad sgiliau a phriodoleddau.

Mae ymarferwyr yr ystafell ddosbarth wedi datgan sylwadau cadarnhaol ynglŷn â sut mae'r cyfleoedd menter cyfoethog wedi galluogi'r disgyblion i fod yn annibynnol wrth ddefnyddio ystod o fedrau trawsgwricwlaidd. Maent wedi sôn hefyd am sut mae cymryd rhan mewn prosiectau menter wedi datblygu lefelau hyder y plant.

**"Mae cymryd rhan mewn prosiectau menter wedi datblygu hyder y plant ac wedi caniatáu iddynt ddefnyddio ystod o sgiliau trawsgwricwlaidd yn annibynnol."** Ymarferydd dosbarth

Unwaith y bydd yr elw wedi'i gyfrifo, mae'r disgyblion yn helpu i benderfynu sut y defnyddir yr arian. Defnyddiwyd elw o brosiectau blaenorol mewn amrywiaeth o ffyrdd, er enghraifft cyfrannu canran i elusennau, ail-fuddsoddi arian ar gyfer y prosiect menter nesaf, neu brynu adnoddau i wella amgylchedd ystafell ddosbarth neu awyr agored yr ysgol. Yn olaf, mae'r disgyblion yn gwerthuso eu prosiect trwy drafodaeth, gan fynd i'r afael â'r meini prawf llwyddiant cychwynnol, a beth ellid ei wneud yn well neu'n wahanol .

**"Peidiwch ag ystyried menter fel 'ychwanegiad'. Mae gweithgareddau menter yn rhoi cyfleoedd i'n dysgwyr ddefnyddio'r sgiliau a'r priodoleddau sydd eu hangen i fod yn llwyddiannus yn yr 21ain ganrif."** Pennaeth

Bwriad yr ysgol yw parhau i ddatblygu ei dulliau menter, gan alluogi pob disgybl i gymryd rhan mewn cyfleoedd bywyd go iawn dilys, a datblygu eu setiau medrau a'u priodoleddau. Mae'r ysgol wedi rhannu'r arfer ar lefel Awdurdod Lleol a bydd hefyd yn parhau i gefnogi ysgolion lleol eraill i ddatblygu eu cwricwlwm menter.

**"Mae mabwysiadu cwricwlwm menter cyfoethog ac amrywiol wedi galluogi ein dysgwyr i ymgymryd â phrofiadau dysgu bywyd go iawn, hwyliog, gan eu helpu i fod yn gyfranwyr mentrus a chreadigol sy'n deall sut i dyfu busnes llwyddiannus."** Dirprwy Bennaeth

*Ydych chi'n cymryd rhan mewn mentrau yn eich ysgol yn barod neu hoffech chi weld sut mae rhoi cynnig arni? I gael digon o ysbrydoliaeth, syniadau a rhagor o astudiaethau achos sy'n dangos sut y gallech ddefnyddio menter fel modd i wella pob agwedd ar y cwricwlwm cynradd, ewch i www.criwmentrus.com neu cysylltwch ag un o'r tîm am gymorth.*